Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.15 Ffynonellau ariannnu ar gyfer phrosiectau rhyngwladol

Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu manylion ffynonellau ariannu i fudiadau gwirfoddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau rhyngwladol, cysylltiadau a chyfnewid cymunedol o fewn y 'de byd-eang' ac yn bennaf Affrica. Canllaw cyffredinol yw'r daflen; bydd y cysylltiadau yn eich galluogi i dderbyn mwy o wybodaeth fanwl. Gall eich cyngor gwirfoddol sirol (CVC) eich helpu i nodi ffynonellau ariannu ar gyfer eich anghenion.

Addas ar gyfer Ariannu

Bron heb eithriad, bydd arianwyr a rhoddwyr yn disgwyl i chi weithredu'n gywir fel mudiad, gyda chyfansoddiad, cyfrif banc ac ymddiriedolwyr, cofrestriad elusen ac, ar gyfer mwyafrif prosiectau rhyngwladol, cytundeb partneriaeth yn manylu penderfyniadau, atebolrwydd, cyfrifoldebau a rolau rhwng y partneriaid yng Nghymru a'r De.

Ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol, efallai bydd y Comisiwn Elusennau yn gofyn i chi ddangos eich bod wedi cymryd y mesurau cywir i sicrhau nad yw'r arian yn mynd tuag at wyngalchu arian, llygredigaeth neu derfysgaeth; ac yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys pobl ifainc, fod gennych bolisïau diogelu plant. Gallwch dderbyn cefnogaeth a chyngor ar y materion yma drwy eich CVC lleol neu gan Wales Africa Community Links www.walesafrica.org

Denu'r Ariannu Cywir

Gall ffrydiau ariannu fod yn amrywiol, o gynlluniau statudol i ymddiriedolaethau a sefydliadau gyda diddordeb penodol mewn datblygiad rhyngwladol. Cyn gwneud cais, rhaid ystyried yn ofalus pa ffynhonnell sy'n cynnig y gorau i'ch nodau a'ch amcanion chi, a rhai eich partneriaid de.

Dylech ystyried yn ofalus y disgwyliadau amser, ymdrech ac atebolrwydd gwahanol arianwyr, a'ch gallu i reoli'r rhain. Mae ceisiadau at arianwyr mawr, megis DfID neu'r UE, yn aml angen y canlynol:

- cannoedd o oriau o gynllunio manwl ac ysgrifennu cais (i botiau arian a or-danysgrifiwyd);
- rheolaeth prosiect proffesiynol at anghenion yr arianwyr (nid chi), dros gyfnod y prosiect;

- atebolrwydd ariannol ac adrodd nôl sy'n gyfreithiol, ble bydd eich mudiad yn atebol (chi fydd yn cario atebolrwydd am wirio eich partner tramor);
- cyfyngir yr arian fel arfer, felly nid ellir ei wario ar unrhyw beth ond am ei bwrpas gwreiddiol.

Efallai y gallwch godi mwy o arian (a llai cyfyngedig), ac ennyn mwy o bobl, drwy sianelu'r un amser ac ymdrech i godi arian cymunedol!

Pwy, Ble, Beth, Pryd?

- Pwy yw'r **bobl** fydd yn elwa o'ch prosiect? Pwy ydych chi fel mudiad - a phwy fydd yn gwneud pethau i ddigwydd?
- Ble fydd eich prosiect yn **cymryd lle**?
- Beth yw'r **broblem** bydd eich prosiect yn ei ddatrys / newid - a sut?
- Pryd ellir gweld y **cynnydd** - a sut fyddwch chi'n gwerthuso effeithlonrwydd wich prosiect?

Eich 'Cymysgu Arian'

Er mwyn i'ch prosiectau fod yn gynaliadwy, dylech osgoi dibyniaeth ar un math o incwm. Gall cydbwysedd eich ffynonellau ddod oddi wrth:

- Unigolion a Chymunedau
- Busnes neu Nawdd Cwmni
- Masnachu
- Arian Statudol neu Lywodraethol
- Y Loteri Fawr a Comic Relief
- Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Elusennol

Cefnogaeth Unigolion a Chymunedol

Gall cefnogaeth gan unigolion, mudiadau a sefydliadau yn eich ardal leol fod yn ffordd hynod effeithiol a chynaliadwy o arian 'anghyfyngedig', a ellir ei weithredu'n effeithiol yn ôl penderfyniadau'r elusen a'r partneriaid de, yn hytrach nag yn ôl gofynion yr arianwyr allanol.

Er enghraifft, gall un cais am £2500 gymryd deuddydd i'w ysgrifennu, ond yn yr un amser, gallwch ddosbarthu taflenni a recriwtio 50 o bobl i roi £5 y mis - gan godi £3000 y flwyddyn, yn barhaus! Gall hefyd adeiladu proffil a chefnogwyr eich mudiad.

Canllawiau *Sustainable Funding Cymru:*

www.sustainablefundingcymru.org.uk/fundingportal/funding-sources/giving-and-public-fundraising

Rhoddion Unigol

Mae apelio am roddion unigol ar gyfer prosiectau rhyngwladol yn hynod effeithiol ar gyfer apeliadau, megis (a) ymateb i argyfwng / trychineb, neu (b) mentrau unigol fel adeiladu ystafell ddosbarth. Mae rhoddion mwy sylweddol yn cynnwys **cymynroddion -** arian a adawyd mewn ewyllys at elusen.

Digwyddiadau a Gweithgareddau Codi Arian

Mae hwn yn effeithiol fel ffordd i gysylltu â phobl mewn dulliau cymdeithasol a chreadigol yn eich prosiectau rhyngwladol. Gall digwyddiadau megis reidio beic neu rafflau fod yn llawn gwaith, ond gallant genhedlu cefnogaeth gref, a allai fod yn ddefnyddiol i roi arian yn rheolaidd.

Rhoi Rheolaidd

Yn aml, dyma'r ffordd fwyaf gwerthfawr a chynaliadwy ar gyfer mudiadau bach, yn enwedig ar gyfer (a) costau craidd, (b) prosiectau sy'n ymateb i angen amrywiol, neu (c) arweiniad gan y partneriaid de. Mae rhoddwyr yn disgwyl rhyw fath o gyfathrebu, megis cylchlythyr, i roi gwybodaeth iddynt am wario'r arian. Gall y dulliau rheolaidd gynnwys:

- **Tanysgrifiad** - tâl aelodaeth reolaidd.
- **Debyd Uniongyrchol** - rhodd fisol o fanc y rhoddwr.
- **Rhoi o'r Gyflogres** - ble mae gweithwyr yn rhoi i elusen arbennig o'u cyflog. Didynnir y rhodd gan y cyflogwr a'i anfon yn syth at yr elusen.

COFIWCH - gofynnwch i'r rhoddwyr i wneud RHODD CYMORTH!
www.hmrc.gov.uk/individuals/giving/gift-aid.htm

Mae hwn yn galluogi elusennau i adennill cyfradd sylfaenol treth (28.2%) ar roddion a wneir i elusennau gan roddwyr sy'n talu treth, gyda'u caniatâd.

Rhoi Corfforaethol a Busnes

www.sustainablefundingcymru.org.uk/fundingportal/funding-sources/giving-and-public-fundraising/company-giving

Yn gyntaf, meddyliwch am fusnesau neu gwmnïau yn eich cymuned a all gefnogi / noddi eich gwaith rhyngwladol. Bydd cwmnïau eisiau cyhoeddusrwydd cadarnhaol a 'chysylltu brand' - a all fod yn fuddiol i'ch prosiect, os nad yw'n creu gwrthdaro moesol (er enghraifft - gwneud gwaith heddwch gyda gwneuthurwyr arfau).

Heblaw am ariannu, gall cwmnïau fod yn ffynhonnell sgiliau ac arbenigedd, nwyddau a rhoddion mewn nwyddau ardderchog.
Ewch at gwmnïau (yn y DU) sy'n arbenigo mewn gwasanaethau sydd angen arnoch (gyda'ch partneriaid de)- er enghraifft:

- BT British Telecom – ar gyfer prosiectau a / neu gyfarpar cyfathrebu

- Dŵr Cymru – ar gyfer prosiectau dŵr
- CISCO – ar gyfer prosiectau Technoleg Gwybodaeth

Cynlluniau Menter Cymdeithasol

KIVA – Loans that change Lives
www.kiva.org

Bwriad KIVA yw cysylltu pobl drwy fenthyg, er mwyn lliniaru tlodi. Mae'n awdurdodi unigolion i fenthyg i fentrwr ar draws y byd. Trwy gyfuno ariannu gyda'r we, mae KIVA yn creu cymuned fyd-eang o bobl a gysylltir trwy fenthyg. Mae KIVA yn cefnogi unigolion a phartneriaid maes.

Gwobrau Mileniwm UNLTD
www.unltd.org.uk

Mae hwn yn cefnogi mentrwyr cymdeithasol sydd eisiau newid y byd er gwell. Mae dau lefel grantiau ar gael: Lefel Un - £500 - £5,000 a Lefel Dau £10 – 20,000.

Masnachu

www.sustainablefundingcymru.org.uk/earning/trading

Efallai gall rhai prosiectau rhyngwladol - yn enwedig y rhai hynny sy'n cyfeirio at faterion bywoliaeth - godi arian ar gyfer prosiectau drwy werthu nwyddau (megis crefftau masnach deg) i brynwyr yn y DU.

Mae **siopau elusen** yn derbyn a gwerthu nwyddau i'w troi i arian parod ar gyfer prosiectau rhyngwladol. Ond mae siopau yn cario argostau, ac felly nid yw'n economaidd ar gyfer elusennau bach.

Ffynonellau Statudol:
Mudiadau bach / cymunedol

WCVA 'Wales Africa Community Links' Cynllun Grantiau Bach

Ariennir gan Lywodraeth Cymru, rheolir gan WCVA

www.walesafrica.org

Mae grantiau Cymru Affrica yn ceisio cefnogi cymunedau Cymreig i ddatblygu cysylltiadau gyda chymunedau Affrica, i sefydlu partneriaethau cynaliadwy a pharhaol sy'n gwneud gwahaniaeth i ddatblygu ac ehangu gorwelion yng Nghymru. Mae tri lefel grant ar gael i brosiectau cyswllt ar wahanol gamau:

- Hyd at £750: **Grant Cynnwys y Gymuned** – tuag at gostau gefeillio, megis gweinyddol, cyfathrebu e.e. gwefannau, taflenni, cyfarfodydd cymunedol, mynychu digwyddiadau, gweithgareddau megis areithiau a stondinau tref.
- Hyd at £1500: **Grantiau Adeiladau Partneriaeth** - tuag at danysgrifio costau cyfnewid (a chyfathrebu) at neu oddi wrth bartneriaid Affrica; datblygu cynlluniau i weithgareddau prosiectau ar y cyd; ffurfioli grwpiau llywio, strwythurau a chytundebau partneriaeth rhwng cymunedau gefeillio.
- Hyd at £3000: **Grantiau Cynaliadwy Partneriaeth** - tuag at sbarduno mentrau gweithredol sy'n cynyddu datblygiad iechyd, plant, bywoliaethau, yr amgylchedd neu harmoni cymdeithasol; denu cymunedau ehangach yng Nghymru ac Affrica gyda phrosiectau cyswllt; mewnosod cynaladwyedd trefniadol; cydgysylltu â'r awdurdodau. DS - Dim ond y grwpiau cyswllt sydd eisoes wedi cofrestru gyda rhaglen *Gold Star Communities* all wneud cais am Grantiau Prosiect.

Cynllun *DfID Global Community Links (DGCL)*

Ariennir hwn gan UKAid oddi wrth Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID) a gweithredir gan y Cyngor Prydeinig, iCoCo, Y Rhwydwaith Rhyng-Ffydd ar gyfer y DU a VSO.

www.dfid.gov.uk/communitylinks

Bwriad hwn yw ceisio helpu cynyddu cysylltiadau cynnwys aelodau'r gymuned yn y DU mewn datblygiad rhyngwladol, a deall materion datblygiad bydol. Mae'n darparu cyfleoedd dysgu, adnoddau ac ariannu i grwpiau cymunedol sy'n cysylltu gyda grŵp cymunedol mewn gwlad sy'n datblygu. Rhaid i'r cysylltiadau gofrestru gyda'r rhaglen cyn iddynt wneud cais am grant, a disgwylir iddynt fynychu gweithdy Ysbrydoliaeth a Gweithrediad cyn gwneud cais am grant.

Mae dau fath o grant ar gael i ariannu gweithgareddau yn y DU a fydd yn codi ymwybyddiaeth am faterion datblygu bydol yn y gymuned ehangach:

- £1,000 hyd at uchafswm o £2,000 i'w wario dros gyfnod o bedwar mis, gyda'r bwriad o ariannu gweithgareddau unigol a fydd yn helpu eich grŵp cymunedol i rannu dysgu a gwybodaeth am faterion datblygu bydol.
- £7,000 hyd at uchafswm o £10,000 i'w wario dros gyfnod o naw mis, gyda'r bwriad o ariannu cyfres o weithgareddau dysgu bydol.

DfID Development Innovation Fund (DIF)

Rheolir hwn o fewn DfID.

www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-not-for-profit-organisations/Development-Innovation-Fund-DIF/

Anelir hwn at fudiadau cymunedol sydd ynghlwm wrth ddarparu cefnogaeth unigol maint bychan sy'n targedu tlodi yn y byd datblygedig, ac sy'n cynnwys ymwybyddiaeth datblygu yn y DU. Bydd y Gronfa yn weithredol am 16 mis yn y lle cyntaf o 2010.

Bwriad y Gronfa yw cynnig cyfleoedd ariannu i fudiadau dielw ond nid y bwriad yw disodli neu groesi gydag ariannu eraill DfID.

Ffynonellau Statudol:
Prosiectau Cyswllt Un Sector

Gweithgareddau Iechyd

Cynllun DfID / DoH International Health Links Funding (IHLFS)

Rheolir hwn gan THET, y Cyngor Prydeinig a'r International Health Links Centre

Ceisiadau: www.britishcouncil.org/learning-healthlinks.htm

Mae Cysylltiadau Iechyd yn bartneriaethau ffurfiol rhwng sefydliad iechyd mewn gwlad ddatblygedig a chymar yn y DU, gyda'r bwriad o gryfhau systemau iechyd a gwella gwasanaeth iechyd yn y ddwy wlad drwy alluogi trosglwyddiad sgiliau a gwybodaeth rhwng pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd. Mae'r cynllun grant yn ceisio cryfhau cynhwysedd y gwasanaeth iechyd yn y gwledydd datblygedig drwy dri gwahanol lefel o grant cysylltu:

- Grantiau bach hyd at £3,000 ar gyfer brocera datblygiad y cysylltiadau hen a newydd gyda mudiadau.
- Grantiau canolig hyd at £15,000 y flwyddyn hyd at ddwy flynedd i gefnogi asesiadau anghenion cefnogol neu ariannu rhaglenni datblygu canolig.
- Grantiau mawr hyd at £180,000 dros dair blynedd i gefnogi gweithgareddau sy'n cynnwys datblygu gwasanaeth sylfaenol, hyfforddi cyn ac wedi cymhwyster, datblygiad cwricwlaidd a datblygiad rheolaeth iechyd.

Bydd y grantiau canolig a mawr yn canolbwyntio ar Gysylltiadau rhwng sefydliadau'r DU a phartneriaid mewn 14 gwlad: Ethiopia, Ghana, Kenya, Malawi, Mozambique, Nigeria, Rwanda, Sierra Leone, Tanzania, Uganda, Zambia, Bangladesh, Nepal a Pakistan. Bydd grantiau bach ar gael yn y gwledydd yma yn ogystal â Democratic Republic of Congo, Sudan, Zimbabwe, Afghanistan, Cambodia, India, Vietnam ac Yemen.

Cynllun NHS Wales for Africa Health Links

Rheolir hwn gan NHS Wales

www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=834
Mae'r gronfa fach yma - £50,000 y flwyddyn rhwng pob cais - ar gyfer datblygu prosiectau iechyd rhwng Cymru ac Affrica Is-Sahara, gan gyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr iechyd yng Nghymru. Gwobrwyir yn flynyddol yn yr hydref.

Gweithgareddau Amgylcheddol

Cynlluniau Llywodraeth Cymru / WCVA 'Environment Wales'

Rheolir y rhain gan WCVA mewn partneriaeth ag 8 mudiad amgylcheddol

www.environment-wales.org/grants/130

Mae gan Amgylchedd Cymru 5 ffynhonnell grant, gyda phob un yn helpu prosiectau ymhob cam y datblygiad.
Mae dwy ffynhonnell ar gael cyn cofrestru h.y. ar gyfer prosiectau heb eu sefydlu'n ddigon cadarn i gwblhau'r broses gofrestru. Y rhain yw:

- Grantiau Cychwynnol: Mae'r rhain yn helpu ymdrin â chostau sefydlu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol megis hurio lleoliadau, cyhoeddusrwydd neu brintio, hyfforddi, yswiriant, aelodaeth ac ati. Yr uchafswm yw £1,000.
- Grantiau Cyn y Prosiect: Mae'r rhain yn helpu ariannu astudiaethau neu arolwg cyn dechrau'r prosiect; er enghraifft, astudiaethau posibilrwydd, cynlluniau busnes, arolwg ecolegol neu werthuso cymunedol. Gellir gwneud yr astudiaethau gan drydydd parti. Yr uchafswm grant yw £4,000.

Mae tri o'r grantiau yn agored i brosiectau Amgylchedd Cymru yn unig.

- Grantiau Cefnogi Hyfforddiant: Mae'r rhain ar gael i helpu costau cyrsiau hyfforddi a chynadleddau. Mae'r costau dilys yn cynnwys costau teithio, lluniaeth a ffioedd y cwrs. Yr uchafswm yw £400. Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg.
- Grantiau Prosiect: Mae'r rhain yn helpu gyda deunyddiau a chyfarpar y prosiect. Yr uchafswm yw £10,000. Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg.
- Grantiau Rheolaeth: Mae'r rhain yn helpu gyda chostau swyddi newydd o fewn prosiectau cofrestredig. Rhaid i'r swyddi fod yn ymwneud â'r prosiect, nid yn rhan o weithgareddau craidd y mudiad. Ystod y grant yw £1,000 i £12,000. Rhaid gwneud cais erbyn Hydref 31 ar gyfer gwobrwyo ar Ebrill 1 y flwyddyn ganlynol. Gellir darparu ariannu hyd at uchafswm o chwe blynedd.

Gweithgareddau Addysgol

Cysylltu Dosbarthiadau

Rheolir hwn gan y Cyngor Prydeinig.

www.britishcouncil.org/learning-connecting-classrooms.htm

Mae hwn yn rhaglen fyd-eang sy'n creu partneriaethau rhwng clwstwr ysgolion yn y DU ac eraill ar draws y byd, gan adeiladu dealltwriaeth ac ymddiried rhwng gwahanol gymdeithasau a darparu pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith fel dinasyddion byd-eang. Mae'n cynnig grantiau a chefnogaeth ar gyfer prosiectau cwricwlaidd ar y cyd, datblygiad proffesiynol i athrawon ac arweinwyr ysgol, cymhwyster ar gyfer achredu ysgol, canllawiau wrth ddefnyddio TG a'r cyfle i rwydweithio a chydweithio ar lein

gyda'r gymuned fyd-eang ymysg pobl broffesiynol addysgol. Mae terfynau amser ceisiadau yn ystod y flwyddyn, fel arfer yn Chwefror, Mai a Hydref.

Ymweliadau Cyswllt Ysgol ac Ardal
Rheolir hwn gan y Cyngor Prydeinig.

www.britishcouncil.org/wales-school-linking-visits-3.htm

Mae arian ar gael i alluogi athrawon a phenaethiaid i ymweld ag ysgol bartner mewn unrhyw wlad y tu allan i Ewrop i sefydlu partneriaeth gwricwlaidd neu ddatblygu cyswllt sy'n bodoli'n barod. Ceir grantiau o £1,000 ar gyfer teithio, lluniaeth a llety. Y dyddiad cau yw Mai 1 a Hydref 1 2010.

Cynllun DfID Global School Partnerships (DGSP)

Rheolir hwn gan y Cyngor Prydeinig, UKOWLA, Cambridge Education Foundation a VSO.

www.dfid.gov.uk/globalschools

Dyma ffordd bwerus, llawn mwynhad a chyffro i ddod a materion byd-eang i fywydau pobl ifanc, athrawon, teuluoedd a chymunedau lleol. Mae'r rhaglen yn anelu at ysgogi ymrwymiad y bobl ifanc tuag at fyd tecach mwy cynaliadwy, drwy gefnogi partneriaeth sy'n hyrwyddo addysg fyd-eang drwy'r cwricwlwm. Darperir cefnogaeth a chanllaw i athrawon er mwyn gwneud y gorau o bartneriaeth ysgol fel arf dysgu. Mae arian ar gael i ymweliadau rhwng ysgolion partner i'w galluogi i ddatblygu prosiectau cwricwlaidd gyda'i gilydd yn seiliedig ar themâu byd-eang.

Grant cychwynnol
- Mae hwn yn ceisio annog partneriaethau ysgol newydd sy'n hyrwyddo dysgu byd-eang drwy'r cwricwlwm. Dosberthir mil o grantiau £250 yr un o 2010 i 2012. www.camb-ed.com/home/Aboutus/NotforprofitFoundation/DGSPStarterGrant/tabid/1354/Default.aspx

Grant ymweliad dwyochrog
- Mae'r rhain ar gyfer partneriaethau sy'n gosod sail ar gyfer gwaith cydweithio hirdymor a fydd yn mewnosod dimensiwn byd-eang yng nghwricwlwm yr ysgol.
- Gall partneriaeth dwy ysgol wneud cais am hyd at £2,100, Os yw dwy ysgol mewn dwy wlad yn cydweithio (4 ysgol i gyd), yr uchafswm yw £4,200. Os yw tair ysgol ymhob gwlad yn cydweithio (6 ysgol i gyd), yr uchafswm yw £6,300. Y dyddiad cau yw Mai ar gyfer teithiau yn y flwyddyn academaidd ganlynol. www.dfid.gov.uk/Getting-Involved/For-schools/global-school-partnerships/start-to-build-your-partnership/Apply-for-a-Reciprocal-Visit-Grant/

Grant Prosiect Cwricwlwm Byd-eang

- Mae'r rhain yn galluogi partneriaethau a sefydlwyd yn gadarn i ddatblygu ymhellach unrhyw weithgareddau cwricwlaidd ar y cyd o fewn thema dimensiwn byd-eang. Bydd yr arian yn helpu costau teithio o leiaf dau athro o bob ysgol i ymweld â'r ysgol bartner, yn ogystal â chostau prosiect megis deunyddiau, hyfforddiant a chostau cyflenwi.
- Gall partneriaeth dwy ysgol wneud cais am hyd at £6,200. Os yw dwy ysgol mewn dwy wlad yn cydweithio (4 ysgol i gyd), yr uchafswm yw £12,400. Os yw tair ysgol ymhob gwlad yn cydweithio (6 ysgol i gyd), yr uchafswm yw £18,600.
- Ym mlwyddyn 2 a 3 y grant gall fod hyd at £3,400 ar gael i fyfyrwyr uwchradd i gymryd rhan ar ymweliadau.
  www.dfid.gov.uk/Getting-Involved/For-schools/global-school-partnerships/Develop-good-practice-in-your-partnership/Apply-for-a-Global-Curriculum-Project-grant1/

Grant yr Awdurdod Lleol

- Mae'r rhain ar gyfer creu perthynas rhyngwladol a all frocera a chefnogi partneriaeth gyda ffocws ar addysg fyd-eang. Y dyddiad cau blynyddol yw mis Mawrth.
  www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-local-authorities/GSP-Local-Authority-Grants

Cynllun DfID Development Partnerships in Higher Education (DelPHE)

Rheolir hwn gan y Cyngor Prydeinig a Sefydliad Prifysgolion y Gymanwlad.

www.britishcouncil.org/delphe.htm

Mae hwn yn cefnogi partneriaeth rhwng sefydliadau uwch yn y DU a thramor, gan ddarganfod ffyrdd newydd i ymladd tlodi byd-eang. Mae gan brifysgolion, colegau, canolfannau ymchwil a sefydliadau meddygol yr hawl i wneud cais.

O Chwefror 2010 i 2012, mae arian ar gael ar gyfer prosiectau **DelPHE Iraq** yn unig, gyda £235,000 ar gael dros gyfnodau tair rownd ariannu.

www.britishcouncil.org/delphe-iraq.htm

Partneriaeth Addysg yn Affrica (EPA)

Rheolir hwn gan y Cyngor Prydeinig

www.britishcouncil.org/learning-epa-about.htm

Mae hwn yn hwyluso partneriaeth rhwng sefydliadau Addysg Uwch Saesneg a phrifysgolion Affrica Is-Sahara sy'n adeiladu cynnwys sefydliadol gyda'r bwriad o sefydlu sgiliau cyflogadwy ynghyd â chyflogwyr a mentrau cymdeithasol lleol. **Mae EPA ar gau ar gyfer ceisiadau pellach o 2009.**

Menter y Prif Weinidog: PMI2 Connect

www.britishcouncil.org/learning-pmi2-connect.htm

Bydd hwn yn parhau i gynnig cyfleoedd ariannu i adeiladu partneriaethau rhwng sefydliadau yn y DU a rhai gwledydd byd-eang. Bydd pob partneriaeth yn gilyddol, ac yn gynaliadwy tu hwnt i ariannu PM12.

Gweithgareddau'r Awdurdod Lleol

Cronfeydd Awdurdod Lleol DfID
www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-local-authorities/

Cynllun Ymarfer da Awdurdod Lleol y Gymanwlad
Rheolir hwn gan y *Commonwealth Local Government Forum*
www.clgf.org.uk/

Mae hwn yn gweithio i hyrwyddo a chryfhau llywodraeth leol ddemocrataidd effeithiol drwy'r Gymanwlad a hwyluso cyfnewid ymarfer da mewn strwythurau a gwasanaethau llywodraeth leol. Gellir darparu hyd at £40,000 i gefnogi gweithgareddau partneriaeth.

Local Government Alliance for International Development
www.lg-alliance.org/
Gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfleoedd ariannu i awdurdodau lleol sydd ynghlwm wrth drefniadau gefeillio Gogledd-De.

European International Twinning Partnerships for Development
http://int.twinning.org/en/page/eu-support.html

Ffynonellau Statudol:
Mudiadau / Rhwydweithiau Canolig a Mawr

NODER: *Nid yw mwyafrif yr arian ar gyfer datblygiad rhyngwladol y llywodraeth yn dod o'r DU, ond yn hytrach drwy swyddfeydd 'yn y wlad' e.e. mae ariannu DfID ar gyfer gweithgareddau yn Uganda yn dod o Bencadlys DfID yn Kampala.*

Efallai fod yna botensial 'yn y wlad' i edrych ar adnoddau rhaglenni o daleithiau y CU (e.e. UDA, Canada, Scandinafia) a chyrff anllywodraethol rhyngwladol (e.e. Oxfam, Save the Children) i sefydlu prosiectau partneriaeth 'ar lawr'.

Cynllun Cymru o Blaid Affrica
Llywodraeth Cymru www.walesforafrica.org

Mae'r rhaglen yma yn cefnogi nifer o rwydweithiau a mentrau cenedlaethol sy'n cefnogi gweithrediad cymdeithas sifil tuag at Golau Datblygu'r Mileniwm, gan gynnwys Wales Africa Community Links, Fairtrade Wales, International Learning Opportunities, SMIDOS a llawer mwy.

Er bod y ffocws yn bennaf ar weithgareddau strategol (cenedlaethol), mae'r grantiau weithiau yn ariannu gwaith datblygu newydd gan fudiadau bach ym meysydd:

- helpu hwyluso parodrwydd trychineb rhyngwladol yng Nghymru a galluogi gwirfoddoli addas ar yr adegau hynny;
- cefnogi cymunedau diaspora i gyfrannu at ddatblygiad a / neu ymateb i drychinebau yn eu cartrefi - gweithio gyda Chymru ar gyfer mentrau Affrica ac unrhyw fudiadau perthnasol;
- annog rhwydweithiau cenedlaethol proffesiynol yng Nghymru (e.e. Sefydliadau Siartredig a'u tebyg) a chymdeithasau / mudiadau eraill i gyfrannu at ddatblygiadau yn Affrica Is-Sahara;
- cefnogi gweithgareddau Cymru gyfan ar Fasnach Deg (mae hwn ar ben yr ariannu ar gyfer Cydlynydd Cenedlaethol Fforwm Masnach Deg Cymru a nodwyd uchod)
- cefnogi prosiect / gweithgaredd newydd sbon yng Nghymru gydag effaith mawr ar ddatblygiad yn Affrica Is-Sahara, yn enwedig parthed newid hinsawdd.

DfID / Comic Relief Common Ground Initiative
Rheolir hwn gan Comic Relief

www.comicrelief.com/apply_for_a_grant/international/common_ground_initiative

Bwriad hwn yw cynyddu defnydd grantiau i fudiadau bychain diaspora yn y DU sy'n gweithio i greu newidiadau gwir a chynaliadwy mewn rhai o gymunedau tlotaf Affrica. Anelir hefyd at gryfhau maint y mudiadau diaspora yn y DU. Gellir gwneud cais am y rhaglenni iechyd, addysg, menter a chyflogaeth a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer y fenter hon, neu un o'r chwe rhaglen grant sy'n bodoli eisoes gyda Comic Relief (gweler adran ddiweddarach).

- Mae grantiau ar gael i elusennau cofrestredig y DU (mae gan brosiectau menter a chyflogaeth mwy o gymhwyster), gyda throsiant llai na £1miliwn dros y ddwy flynedd flaenorol
- Gall mudiadau diaspora fod o unrhyw faint, ble mae mwyafrif yr ymddiriedolwyr yn dod o dras Affricanaidd; sy'n byw yn y DU ond yn parhau i gael cyswllt emosiynol, ariannol a diwylliannol gyda'u gwlad, a / neu gyfandir Affrica
- Mae ystod yr ariannu yma ar gyfer gwaith mewn unrhyw wlad yn Affrica neu grŵp o wledydd Affrica.

Mae yna dri math o ariannu ar gael yn ôl y fenter yma:

a) Grantiau 'ymchwil, ymgynghoriad a chynllunio' hyd at £25,000 ar gyfer ymchwil, astudiaethau sylfaenol, dadansoddiad angen, gwaith llywio, lledaenu dysgu a gwaith perthnasol.
b) Grantiau 'prosiect'. Gall y rhain fod hyd at £1 miliwn dros 5 mlynedd. Fodd bynnag, y grant cymedr i fudiadau bach yw dan £200,000 dros 3 mlynedd.
c) Grantiau 'datblygiad trefniadol' hyd at £40,000 hyd at 3 mlynedd.

Cronfa DfID Civil Society Challenge Rheolir hwn gan Triple Line Consulting

www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-not-for-profit-organisations/CSCF/

Mae hwn yn cefnogi gweithgareddau sydd yn:

- gwella cynhwysedd cymdeithas sifil Ddeheuol i gymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniad lleol
- gwella cynhwysedd cymdeithas sifil Ddeheuol i gymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniad cenedlaethol
- gwella cysylltiadau cenedlaethol drwy eiriolaeth fyd-eang
- darparu gwasanaeth newydd
- darparu gwasanaeth newydd mewn amgylchedd anodd

Gellir darparu hyd at £500,000 am uchafswm o 5 mlynedd. Ond croesawir prosiectau ble mae'r DU wedi cadarnhau peth arian o ffynonellau eraill, neu'n gwneud cyfraniad ei hun, ond hefyd ystyrir hyd at 100% ble nad oes ariannu arall ar gael. Y dyddiad cau blynyddol yw Ebrill / Mai.

Cynllun DfID Development Awareness Fund (DAF) a Grantiau Bychan

www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-not-for-profit-organisations/DAF/

Ailwampir hwn ar gyfer ei ail-lansio ar ddiwedd 2010. Bydd yn dal i fodoli ar gyfer mudiadau dielw sy'n chwilio am arian i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus a deall tlodi byd-eang. Ni fydd ar gyfer gwaith yn y system addysg ffurfiol, a fydd dan raglenni addysgol newydd a ddatblygwyd i bob cenedl.

DfID Media Fund: Commonwealth Broadcasting Association Programme Development and Travel Bursary Funds
www.cba.org.uk/CBA-DFID/progdev/index.php

Mae'r rhain ar gyfer rhwydweithiau a newyddiadurwyr / cyfryngau a sefydlwyd eisoes yn y DU, sydd angen treulio hyd at dri mis mewn gwlad ddatblygedig y Gymanwlad er mwyn ymchwilio i raglenni, ac wedyn cynhyrchu rhaglenni i'w darlledu yn y DU, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth gyhoeddus o'r byd datblygedig a'r angen i ymrafael â thlodi byd-eang. Hyd at £10,000.

Rhaglen European Union Financing Instument for Development Cooperation 'Non-State Actors and Local Authorities'
www.europa.eu/legislation_summaries/development/general_development_framework/r12554_en.htm

Dan y rhaglen thema yma o 2007-10, mae'r Comisiwn yn cefnogi hawl menter actorion ac awdurdod lleol drwy ariannu'r mentrau mewn tri maes ymyrryd:

- gweithredoedd mewn gwledydd a rhanbarthau datblygedig,

- codi ymwybyddiaeth ac addysg yn Ewrop ar bwnc datblygu,
- mesurau sy'n hwyluso cydlynu rhwng rhwydweithiau cymdeithas sifil ac awdurdodau lleol.

Bydd gwybodaeth bellach ar raglenni ariannu'r dyfodol yn dilyn ail-drefnu Cytuniad Lisbon.

European International Twinning Partnerships for Development
http://int.twinning.org/en/page/eu-support.html

Gwirfoddoli a Datblygiad Personol

Llywodraeth Cymru International Learning Opportunities (ILO)
Mae hwn yn rhaglen newydd i'w lansio yn Ebrill 2010, i'w reoli gan Adopt a Business a PSMW (Public Service Management Wales)
http://wales.gov.uk/psmwsubsite/psmw/personaldev/ilo/;jsessionid=LlLbLsZbgYZh04nW6sL2GpJ62yGTvxv172GrC41yQm5kSfRnNLyy!-1614394458?lang=en

Dyma gynllun sy'n galluogi rheolwyr a dysgwyr ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru i dreulio hyd at 8 wythnos yn gweithio ar brosiectau datblygu strategol yn Affrica Is-Sahara, gan helpu traddodi Golau Datblygiad Mileniwm y DU. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn datblygu sgiliau arwain drwy rannu eu harbenigedd a thraddodi lles amlwg yn y cymunedau ble maen nhw'n gweithio. Mae'r sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddaw o hyn yn hynod werthfawr i'w cyflogwyr ac i'w gyrfaoedd personol.

GwirVol International Youth Volunteering

Rheolir gan WCVA
www.gwirvol.org/

Mae Cynllun Grant *GwirVol International Youth Volunteering* yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli yn rhyngwladol i bobl ifanc mewn cymunedau dan anfantais a lleiafrifol yng Nghymru, drwy arian prosiect hyd at £30,000 am raglen weithgareddau strwythurol a fydd yn caniatáu profiadau gwirfoddoli rhyngwladol o ansawdd uchel i bobl ifanc 16 - 25 oed. Mae'r cynllun yn cefnogi hyd at 80% o gost lawn y prosiect. Y dyddiad cau blynyddol yw tua mis Mehefin.

Rhaglen DfID Diaspora Volunteering Alliance
Rheolir gan VSO

www.vso.org.uk/volunteer/diaspora-volunteering/

Mae hwn yn gweithio drwy gynghrair o 20 wahanol sefydliad diaspora, ac yn darparu arian i helpu pobl broffesiynol o'r DU i wirfoddoli mewn gwledydd neu gyfandiroedd treftadaeth, a gwneud cyfraniad ystyrlon i brosiect datblygu.

Cynllun Gwirfoddoli DfID Global
Rheolir hwn gan Gymorth Cristnogol a BUNAC

www.myplatform2.com

Dyma gynllun gwirfoddoli byd-eang i bobl 18 - 25 oed i gymryd rhan mewn materion byd-eang cyfiawnder a thlodi.

Arian DfID i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dymuno astudio yn y DU
www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/Funding-for-international-students-wishing-to-study-in-the-UK

Comic Relief a'r Loteri Fawr

Rhaglenni Grantiau Rhyngwladol Comic Relief
www.comicrelief.com/apply_for_a_grant/international

Ein gweledigaeth yw '*A Just World Free From Poverty.'* Ein bwriad yw *'Positive Change through the Power of Entertainment.'* Mae Comic Relief yn rhoi cymorth i rai o'r bobl fwyaf tlawd a dan anfantais yn y byd er mwyn gwella eu bywydau. Gwneir hyn drwy roi'r holl arian a godir gan y cyhoedd i brosiectau elusennol ar draws y DU a rhai o'r gwledydd tlotaf yn y byd, yn enwedig Affrica.

Mae Comic Relief wedi canolbwyntio ar wneud chwe grant 'agored' a thair rhaglen ychwanegol dan Fenter Tir Cyffredin. Rhaid i'ch cais ddangos sut mae'ch gwaith yn gweddu un o'r strategaethau a'r holl egwyddorion grantiau. Mae'r grantiau rhwng 3 a 5 mlynedd, a gallwch wneud cais hyd at £1 miliwn am grantiau prosiect, a hyd at £25,000 am grantiau ymchwil a datblygu.

- Masnach
- Pobl a effeithiwyd gan HIV ac AIDS
- Pobl a effeithiwyd gan Wrthdaro
- Plant a Phobl Ifanc y Stryd a'r rhai sy'n gweithio
- Pobl sy'n byw yn y Slymiau Trefol
- Menywod a merched
- Chwaraeon am newid
- Menter Tir Cyffredin

Strategaeth grantiau rhyngwladol Comic Relief:
www.comicrelief.com/sites/comicrelief.com/assets/img/grants/pdf/international_full_grants_strategy.pdf

Y Loteri Fawr

Cronfa'r Loteri Fawr - Arian i bawb
www.awardsforall.org.uk/wales/index.html

Mae'r rhaglen grant bach yma yn helpu gwella cymunedau lleol a bywydau'r bobl anghenus drwy gefnogi mudiadau gwirfoddol neu gymunedol, ysgol, cyngor cymunedol neu dref, neu gorff iechyd. Gallwch wneud cais rhwng £500 a £5,000.

Cyngor Celfyddydau Cymru
www.lotteryfunding.org.uk/uk/arts-council-wales

Mae'r Cyngor yn rhannu arian loteri i fudiadau ac unigolion yng Nghymru - gan gynnwys prosiectau celfyddydau cymunedol sy'n cynnwys cysylltiadau Affrica - ar gyfer:

- cefnogaeth rhaglen a chynyrchiadau
- cymryd rhan
- celfyddydau a phobl ifanc
- cynaladwyedd
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Ymddiriedolaeth a Sefydliadau Elusennol

Cymdeithas Sefydliadau Elusennol
www.acf.org.uk

Dyma'r prif sefydliad i ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y DU gyda mwy na 300 o aelodau o faint bach a lleol i rai o sefydliadau mwyaf y byd.

Waterloo Foundation *World Development Programme*
www.waterloofoundation.org.uk/WorldDevelopment.html

Mae hwn yn ceisio cefnogi mudiadau sy'n helpu'r anfanteision economaidd i adeiladu sail ffyniant cynaliadwy, drwy wella gallu unigolyn i gael addysg o ansawdd uchel; cefnogi cymunedau i gael dŵr, glanweithdra a hylendid glan; a darparu cefnogaeth i fentrau datblygu llwyddiannus - mae'r rhain i gyd yn allweddol i gyflawni'r bwriad yma.

- Hyd at uchafswm £100,000 y flwyddyn.

Rhaglen Amgylchedd *Waterloo Foundation*
www.waterloofoundation.org.uk/environmentAboutTheProgramme.html

Mae hwn yn awyddus i gefnogi mentrau sy'n ceisio lleihau newid hinsawdd a chynyddu iechyd yr amgylchedd morol, yn y DU ac ar draws y byd, gan ganolbwyntio ar brosiectau **fforestydd a morol**.

Kitchen Table Charities Trust (KTCT)
www.kitchentablecharities.org/grant.htm

Crëwyd hwn i helpu elusennau bach, yn gweithio gan fwyaf yn Affrica, sy'n defnyddio symiau bach o arian i newid bywydau pobl ym meysydd:

- Addysg gynradd;
- Iechyd, glanweithdra a dŵr yfed glân;
- Gofal plant a mamau, gan gynnwys plant y stryd, cartrefi amddifad a gwasanaethau mamolaeth:
- Gwaredu tlodi, yn enwedig prosiectau sy'n cenhedlu refeniw.

Nid yw'r grantiau yma yn fwy na £5,000 y prosiect neu fudiad. Ni ddylid gwario unrhyw ran o'r grant ym Mhrydain ar weinyddiaeth - gan gynnwys cyflogau ac ymgyrchoedd hysbysebu. Rhaid i'r prosiectau roi cymorth uniongyrchol i'r bobl fwyaf tlawd (gan amlaf plant neu weddwon) ar reng waelod yr ysgol.

Rhaglen grantiau datblygu rhyngwladol ar y cyd - Baring Foundation
www.baringfoundation.org.uk

Gall elusennau cofrestredig, grwpiau gwirfoddol a mudiadau dielw yn y DU sy'n gweithio i gyrff anllywodraethol a mudiadau cymunedol yn Affrica Is-Sahara wneud cais. Uchafswm y grant yw £250,000, am gyfnod hyd at bum mlynedd. Mae grantiau ar gael i helpu ymrafael â phroblemau dadleoliad ac ymfudiad hirdymor yn Affrica Is-Sahara. Disgwylir i'r sawl sy'n gwneud cais yn y DU sianelu'r arian i fudiadau sy'n gweithredu yn yr ardal. Y dyddiad cau blynyddol yw mis Mawrth.

Ymddiriedolaeth Elusennol Teg
www.equitablecharitabletrust.org.uk

Bwriad hwn yw gwella addysg pobl ifanc dan 25 oed, yn enwedig rhai dan anfantais feddyliol neu gorfforol. Mae un o'r tri ffocws yn cefnogi prosiectau tramor a fydd yn cynyddu cymryd rhan mewn, neu wella ansawdd, addysg i blant a phobl ifanc dan anfantais neu anabl yn y gwledydd datblygu.

- Gellir rhannu grantiau tuag at gostau prosiect, gwariant cyfalaf, cyfarpar a/neu gost cyflog swydd.
- Hyd yr ariannu yw un i dair blynedd. Maint y grantiau yw £2,500 i £30,000; bydd grantiau sawl blwyddyn rhwng £5,000 a £7,500 y flwyddyn.

Ymddiriedolaeth Sigrid Rausing
www.sigrid-rausing-trust.org

Mae hwn yn cefnogi'r mudiad hawliau dynol rhyngwladol, gyda phedair rhaglen:

- Hawliau Sifil a Pholiticaidd,
- Hawliau Menywod,
- Hawliau Lleiafrifoedd,
- Cyfiawnder Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Mae'r Grantiau Bach hyd at £15,000. Fe'u rhoddir drwy'r flwyddyn, a bwriadwyd hwy ar gyfer mudiadau bach sy'n ei chael hi'n anodd i godi arian gan asiantaethau ariannu rhyngwladol.
Mae'r Prif Grantiau rhwng £15,000 a £850,000. Mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu ar y rhain yn eu cyfarfodydd dair gwaith y flwyddyn, fel arfer yn Chwefror, Mehefin a Hydref.

Ymddiriedolaeth Dulverton
www.dulverton.org

Mae hwn yn darparu grantiau rhwng £10-30,000 i elusennau a mudiadau'r DU sydd â statws elusennol ar gyfer rhaglenni megis **Cefnogaeth Heddwch a Dyngarol** ac **Affrica**. Maen nhw'n awyddus i gefnogi gwaith yng Nghymru , ac yn croesawu galwadau ffôn a cheisiadau gan elusennau Cymreig.

Sefydliad Potter
www.potterfoundation.com/index.php

Mae hwn yn ceisio cael effaith drwy grantiau ystod eang sy'n hyrwyddo rheswm, addysg a hawliau dynol, er mwyn gwella dealltwriaeth, atgyfnerthu trefn lywodraeth dda, ac annog twf a chynnal cymdeithas sifil gref, yn enwedig mewn gwledydd llai datblygedig.

Ymddiriedolaeth Nominet
www.nominettrust.org.uk

Mae hwn yn cefnogi mentrau seiliedig ar y we yn y DU ac yn rhyngwladol yn y sectorau addysg, ymchwil a datblygu, diogelwch a chynhwysiad cymdeithasol. Dylai'r prosiectau gwrdd ag anghenion grwpiau targed yr Ymddiriedolaeth, sef pobl ifanc, pobl hŷn, pobl gydag anabledd, pobl sâl ac yn gyffredinol y rhai dan anfantais neu'n agored i niwed, Gellir gwneud cais ar-lein.

Ymddiriedolaeth Gibbs
www.gibbstrust.org.uk

Mae hwn yn darparu grantiau rhwng £500 a £10,000 tuag at ystod eang o weithgareddau gan gynnwys rhai rhyngwladol.

Cronfa Maypole
www.maypolefund.org/grant.html

Dyma grantiau hyd at £750 i greu adnoddau ar gyfer gweithgareddau di-drais gan fenywod unigol neu grwpiau menywod i greu heddwch gyda chyfiawnder a diogelwch amgylcheddol. Croesawir ceisiadau gan fenywod ar gyfer prosiectau a gweithgareddau:

- diarfogi a gweithredu yn erbyn y fasnach arfau
- gwrth-filitariaeth a gweithredu yn erbyn trais gwrywaidd
- materion niwclear ac amgylcheddol
- hyrwyddo ymreolaeth gymdeithasol a pholiticaidd menywod drwy'r byd
- cysylltiadau rhyngwladol rhwng menywod i'r perwyl yma.

Sefydliad Rufford
www.rufford.org

Mae hwn yn canolbwyntio ar brosiectau cadwraeth natur mewn gwledydd sy'n datblygu a wneir gan fudiadau bach neu ganolig. Ni fydd y grantiau yma, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad tramor neu faterion cymdeithasol yn y DU, yn fwy na £5,000.

Ymddiriedolaethau Elusennol y Teulu Sainsbury
www.sfct.org.uk/index.html

Dyma swyddfa weithredol 18 ymddiriedolaeth grantiau a sefydlwyd gan deulu Sainsbury. Maen nhw'n cynnwys:

Sefydliad Elusennol Gatsby
www.gatsby.org.uk/developing.html

Mae hwn wedi bod yn ariannu a gweithredu rhaglenni yn Affrica ers yr 1980au, gyda'r bwriad o sbarduno creu swyddi a gwella incwm y tlodion. Mae'r rhaglenni yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol: lledaenu ymchwil amaethyddol i ffermwyr bychain, a darparu cymorth i fentrau bach neu ganolig.

Ymddiriedolaeth Ashden
www.ashdentrust.org.uk

Dyma elusen a sefydlwyd yn 1989, ac mae'n perthyn i grŵp Sainsbury. Yn bennaf, cefnogir rhaglenni sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd, datblygiad cynaliadwy neu wella ansawdd bywyd mewn cymunedau tlawd.

Ymddiriedolaeth True Colours
www.truecolourstrust.org.uk/africa.aspx

Ymrwymir i wella gofal lliniarol fforddiadwy yn Affrica Is-Sahara. Gweinyddir y grantiau bach gan Gymdeithas Gofal Lliniarol Affrica, a darperir grantiau rhwng £1,000 - £2,500, i fudiadau sy'n cynnig gofal lliniarol ar draws y cyfandir.

Ymddiriedolaeth Headley
www.sfct.org.uk/index.html

Prosiectau datblygu yn Affrica Is-Sahara ac Ethiopia.

Ymddiriedolaeth Staples
www.sfct.org.uk/index.html

Datblygiad tramor - prosiectau sy'n rhoi pŵer i fenywod, cefnogi hawliau pobl frodorol, gwella lloches a thai, cenhedlu incwm mewn cymunedau dan anfantais, ac annog amaethyddiaeth gynaliadwy.

Gwybodaeth bellach

Wales Africa Community Links (yn flaenorol - Gold Star Communities) – www.walesafrica.org

Ariannu a Chyngor WCVA arall www.wcva.org.uk/grants/

- Amgylchedd Cymru
- GwirVol - Gwirfoddoli ieuenctid
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm
- Cronfa Ymddiriedolaeth Communities First

Ariannu Cynaliadwy Cymru
www.sustainablefundingcymru.org.uk/welcome
Tudalen ryngwladol:
www.sustainablefundingcymru.org.uk/fundingportal/11353/11358/11416

Cynlluniau Ariannu o'r DfID
www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID/Funding-Schemes/

UKOWLA Toolkit – Adnoddi eich Cyswllt:
www.ukowla.org.uk/Toolkit/resourcing%20the%20link%205b.pdf

SMIDOS – Rhwydwaith Mudiadau Datblygu Rhyngwladol Bach neu Ganolig
www.smidos.org

Llywodraeth Cymru
Cynllun Cymru o blaid Affrica www.walesforafrica.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Llawr Gwaelod, Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB
Elusen Gofrestredig *1068623*

Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk
Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/07/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WCVA
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk